# Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

# **Amcanion Llesiant**
# **2017/18**

A greener place to live, work and visit
Man gwyrddach i fyw, gweithio ac ymweld

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

# Amcan Llesiant 1

## Helpu pobl i wneud y defnydd gorau o incwm y cartref a rheoli eu dyledion

### ***Pam rydym wedi dewis hwn***

Mae tlodi yn niweidio rhagolygon pobl a'u dyfodol hirdymor. Mae hefyd yn gosod baich ar adnoddau a gwasanaethau cyhoeddus. Mae mynd i'r afael â thlodi yn fuddiol i bawb. Mae Cyngor Caerffili yn ymroddedig i sicrhau bod ei drigolion yn gallu byw bywydau bodlon ac na chânt eu rhwystro rhag mwynhau safon byw dderbyniol oherwydd anfantais economaidd, gymdeithasol neu ddiwylliannol.

Ymhlith y rhesymau mwyaf cyffredin dros broblemau dyled mae colli swydd, salwch a thor-perthynas. Mae llawer mewn risg o wynebu problemau dyled yn dilyn digwyddiadau bywyd o'r fath, am fod gan gyn lleied ohonynt y gwydnwch ariannol i ymdopi. Er enghraifft, gwyddom y gall problemau dyled effeithio ar iechyd meddwl da, cydberthnasau, addysg a llesiant cyffredinol. Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gwelwyd cynnydd digynsail yn y defnydd o fanciau bwyd yng Nghymru, gyda 35,919 o bobl yn derbyn bwyd yn 2012-2013, ac yna gynnydd i 1,109,309 yn 2015/16*, a gall cartrefi incwm isel wario 16.6% o'u hincwm ar fwyd. Mae prisiau ynni domestig wedi cynyddu 62% ers 2008, a gwelwyd cynnydd o 21% yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. I bobl ar incwm isel, mae hwn yn gynnydd syfrdanol yn eu biliau ynni ac maent yn fwy tebygol o fod â mesuryddion rhagdalu, sy'n golygu y gallant fod yn talu hyd at £253 yn fwy bob blwyddyn na'r rhai sy'n talu drwy ddebyd uniongyrchol.

Yn ôl elusen Step Change, mae dyledion Treth Gyngor ac ôl-ddyledion biliau dŵr ymhlith y dyledion sy'n tyfu gyflymaf i'w chleientiaid yng Nghymru a dim ond £10 sydd gan gleientiaid yn weddill, ar gyfartaledd, er mwyn helpu i dalu eu dyledion ar ôl iddynt dalu eu costau cartref. Mae dyled wedi mynd yn broblem ddifrifol i ormod o bobl, gyda bron i dair miliwn o bobl ym Mhrydain yn wynebu problemau dyled yn ôl y sôn. Rhaid i ni integreiddio ein gwaith am fod achosion tlodi yn gymhleth ac yn niferus, a chânt eu hachosi gan ffactorau allanol y tu hwnt i'n rheolaeth fel lefelau cyflog neu bolisi llywodraeth ganolog; ond nod yr amcan hwn yw lliniaru'r effeithiau. Mae effaith tlodi yn llesteirio gallu gwasanaethau cyhoeddus i wella ansawdd bywyd. Felly, rydym wedi mynd i'r afael â'r mater mewn modd gweithredol a chydweithredol ac wedi sefydlu Bwrdd Gwrthdlodi. Mae'r bwrdd yn monitro ein strategaeth 'Trechu Tlodi' ac mae'n cynnwys aelodau o amrywiaeth o sefydliadau. Mae ein strategaeth gyffredinol yn dibynnu ar ein partneriaid, gan gynnwys Cyngor Ar Bopeth, banciau bwyd lleol ac Undebau Credyd yn arbennig. Er enghraifft, rhwng mis Hydref 2013 a mis Awst 2014, atgyfeiriodd clinigau cymorth dyled CAB, a ariennir drwy Cartrefi Caerffili a rhaglen Cefnogi Pobl, 262 o drigolion i gael cymorth dyled, a arweiniodd at nodi £2.53m o ddyled (cyfartaledd o £9,565 fesul unigolyn). Yn 2017/18 gwnaethom ymweld â thenantiaid y cyngor yn eu cartrefi i roi cymorth a chyngor iddynt, gan sicrhau gwerth tua £903,500 o arbedion o ganlyniad uniongyrchol i gymorth wyneb yn wyneb. Drwy wneud hyn, rydym yn gweithio tuag at atal tlodi lle bynnag y bo modd.

* Ffigurau diwedd blwyddyn Ymddiriedolaeth Trussel ar gyfer 15/16 yn trusseltrust.org.uk

Ar gyfer blwyddyn 2017/18, ystyrir bod y cyngor wedi **llwyddo** i wneud cynnydd tuag at gyflawni'r amcan hwn ar y cyfan, am ein bod wedi cwblhau ein holl gamau gweithredu ac am fod y rhan fwyaf o'n mesurau perfformiad wedi cyrraedd ein targedau neu ragori arnynt.

### *Beth rydym wedi'i wneud yn dda yn ystod y flwyddyn ddiwethaf*

Eleni, gwnaethom ymweld â 1977 o denantiaid y Cyngor y mae diwygiadau lles wedi effeithio arnynt i roi cyngor a chymorth iddynt yn eu cartrefi eu hunain. Gwnaethom helpu dros 3000 o bobl i gael y budd-daliadau y mae ganddynt hawl i'w cael, sy'n llawer uwch na'n targed ar gyfer y flwyddyn. Gwerth yr arbedion ariannol a sicrhawyd ar gyfer tenantiaid o ganlyniad uniongyrchol i gymorth wyneb yn wyneb oedd £903,508. Byddwn yn parhau i hyrwyddo Prydau Ysgol am Ddim, gan ddefnyddio sianeli cyfryngau sefydledig, a gweithio hefyd gydag ysgolion a phartneriaid eraill. Mae'r wybodaeth a rennir yn tynnu sylw at y buddiannau i deuluoedd ac ysgolion o ganlyniad i sicrhau bod rhieni/gofalwyr cymwys yn cwblhau ceisiadau Prydau Ysgol am Ddim.

Mae'r ganran sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn dal i fod yn debyg i'r adeg hon y llynedd.

Newidiodd cynllun Cymorth Lleoedd i dargedu plant ag oedi datblygiadol yn unig; effeithiodd hyn ar nifer y lleoliadau y gellir eu cynnig. Eleni, cymerwyd 44 o leoliadau, a oedd yn is na'r disgwyl. Ers mis Medi, cafodd y cynllun ei ymestyn i ddarparu ar gyfer plant â phryderon ymddygiad y mae eu rhieni'n defnyddio rhaglenni rhianta neu gymorth i deuluoedd er mwyn helpu i sicrhau negeseuon cyson. Mae Dechrau'n Deg wedi parhau i gynnig lleoliadau gofal plant yn llwyddiannus gan alluogi 620 o blant cymwys i fanteisio ar leoedd gofal plant.

Yn ystod 2017/18, roeddem yn un o'r awdurdodau lleol a roddodd y Cynnig Gofal Plant ar waith yn gynnar. Hyd yma, mae 120 o ddarparwyr wedi cofrestru i fod yn rhan o'r cynnig a, hyd at 31 Mawrth, mae 374 o blant wedi cael lleoliadau o dan y cynnig. Mae'r adborth gan rieni wedi dangos bod hyn wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i rieni mewn cartrefi incwm isel sy'n gweithio.

Er bod hwn yn amcan hirdymor, rydym yn gweithio'n benodol tuag at gyrraedd y targedau ar gyfer atgyfeirio trigolion i gael cymorth o ran rheoli dyledion a manteisio ar fudd-daliadau, a rhagori ar y targedau hynny.

**Camau Gweithredu**

| Teitl | Sylw | Coch Melyn Gwyrdd | Statws Cyffredinol | % Wedi'i Gwblhau |
|---|---|---|---|---|
| Sicrhau bod pob disgybl sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim yn eu cael | Caiff gwybodaeth am Brydau Ysgol am Ddim ei hanfon at Benaethiaid bob blwyddyn a gofynnir iddynt ei hanfon at rieni/gwarcheidwaid. Mae'r wybodaeth yn rhoi manylion am sut mae manteisio ar Brydau Ysgol am Ddim o fudd i'r ysgol ac i'r plentyn. Ynghyd â hyn, rydym yn hyrwyddo'r gwasanaeth gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a, lle bynnag y bo modd, mewn unrhyw ddigwyddiadau lle y byddai'n addas ei hyrwyddo, e.e. nosweithiau rhieni, digwyddiadau yn yr ysgol ac ati. | | Wedi'i Gwblhau | 100 |
| Hyrwyddo darpariaeth gofal plant hygyrch, fforddiadwy o safon dda er mwyn galluogi teuluoedd i wella eu hincwm drwy fanteisio ar gyfleoedd addysg, dysgu a chyflogaeth | Yn ystod 2017/18, roeddem yn un o'r awdurdodau lleol a roddodd y Cynnig Gofal Plant ar waith yn gynnar. Hyd yma, mae 120 o ddarparwyr wedi cofrestru i fod yn rhan o'r cynnig a, hyd at 31 Mawrth, mae 374 o blant wedi cael lleoliadau o dan y cynnig.<br>Mae'r adborth gan rieni wedi dangos bod hyn wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i rieni mewn cartrefi incwm isel sy'n gweithio. | | Wedi'i Gwblhau | 100 |
| Rhoi gwybodaeth a chyngor i drigolion ar amrywiaeth o faterion lles cymdeithasol i'w galluogi i gynyddu incwm y cartref, rheoli dyled a meithrin sgiliau i wella eu gallu ariannol | Yn ystod 2017/18, gwnaethom ymweld â 1977 o denantiaid y Cyngor y mae diwygiadau lles wedi effeithio arnynt i roi cyngor a chymorth iddynt yn eu cartrefi eu hunain. Gwnaethom helpu 1640 o bobl i gael budd-daliadau ychwanegol roedd ganddynt hawl i'w cael, gan gynnwys PIP, lwfans presenoldeb a chostau cyfleustodau rhatach, sy'n llawer uwch na'n targed ar gyfer yr hanner blwyddyn. Gwerth yr arbedion ariannol a sicrhawyd ar gyfer tenantiaid o ganlyniad uniongyrchol i gymorth wyneb yn wyneb oedd £903,508. Mae hyn eisoes yn fwy na'r swm a sicrhawyd yn ystod blwyddyn ariannol 2016/17 ac yn llawer uwch na'n targed ar gyfer eleni. | | Wedi'i Gwblhau | 100 |
| Helpu tenantiaid y Cyngor i leihau effaith y cynnydd mewn costau tanwydd. Caiff effaith y cyngor hwn ei nodi yn ystod ymweliadau dilynol â detholiad o'r tenantiaid | Yn ystod y flwyddyn, ymwelwyd â 444 o denantiaid yn eu cartrefi i roi cyngor allweddol ar ynni iddynt er mwyn helpu i leihau costau tanwydd. Mae'r pedwar swyddog cymorth i denantiaid yn meddu ar gymhwyster lefel 4 City and Guilds mewn dyledion tanwydd yn y gymuned. Hefyd, mae'r swyddogion amgylcheddol cymunedol sy'n gweithio yn y gwasanaeth tai wedi cael hyfforddiant er mwyn darparu'r un lefel o gymorth. | | Wedi'i Gwblhau | 100 |

## Faint rydym wedi'i wneud?

| Teitl | Gwirioneddol | Targed | Ymyriad | Coch Melyn Gwyrdd | Canlyniad 12 mis yn ôl | Sylw |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. Nifer tenantiaid y cyngor yr ymwelwyd â nhw i roi cyngor ar fesurau arbed ynni a defnydd o ynni | 444 | 200 | 120 | | 353 | Nifer y tenantiaid sy'n cael cyngor ar ynni ar ddiwedd mis Mawrth yw 444 o gymharu â 353 ar ddiwedd yr un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol |
| 2a. Nifer y plant sy'n manteisio ar gynllun Dechrau'n Darpariaeth gofal plant | 620 | 500 | 400 | | 526 | |
| 2b. Nifer y plant sy'n manteisio ar leoedd gofal plant drwy Gynllun Cymorth Lleoedd | 44 | 88 | 70 | | 137 | Newidiodd cynllun Cymorth Lleoedd i dargedu plant ag oedi datblygiadol yn unig; effeithiodd hyn ar nifer y lleoliadau y gellir eu cynnig. |
| 3. Nifer tenantiaid y cyngor a atgyfeiriwyd i gael cyngor ar arian a dyledion o ganlyniad uniongyrchol i gymorth wyneb yn wyneb mewn perthynas ag effaith diwygiadau llesiant | 51 | 40.00 | 15.00 | | 197 | |
| 4. Nifer y trigolion eraill a gafodd eu hatgyfeirio at wasanaethau cymorth ariannol/dyled a gomisiynwyd | 720 | 600 | 500 | | 617 | |
| 5. Nifer tenantiaid y cyngor y mae diwygiadau lles wedi effeithio arnynt yr ymwelwyd â nhw yn eu i roi cyngor a chymorth iddynt er mwyn lleihau effaith y newidiadau cymaint â phosibl | 1977 | 2000 | 1200 | | 2183 | Fymryn yn is na'r targed blynyddol oherwydd absenoldeb mamolaeth hyfforddi rhywun i gymryd ei le. Rydym wedi cynyddu lefel staffio'r 2018 er mwyn ceisio helpu gyda'r nifer o denantiaid y mae angen cymorth arnynt |

## Pa mor dda y gwnaethom ni?

| Teitl | Gwirioneddol | Targed | Ymyriad | Coch Melyn Gwyrdd | Canlyniad 12 mis yn ôl | Sylw |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1a. Canran y disgyblion cymwys sy'n manteisio ar y cyfle i gael Prydau Ysgol am Ddim - Cynradd (Croniad chwarterol – y flwyddyn hyd yma) | 73.37 | 70 | 67 | | 73 | Cynnydd o 3% mewn prydau am ddim mewn ysgolion cynradd o gymharu â'r cyfnod diwethaf. |
| 1b. Canran y disgyblion cymwys sy'n manteisio ar y cyfle i gael Prydau Ysgol am Ddim – Uwchradd (Croniad chwarterol – y flwyddyn hyd yma) | 64 | 64 | 55 | | 65 | Cyrhaeddwyd y targed ar gyfer manteisio ar brydau am ddim. |

## Oes unrhyw un wedi elwa?

| Teitl | Gwirioneddol | Targed | Ymyriad | Coch Melyn Gwyrdd | Canlyniad 12 mis yn ôl | Sylw |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. Gwerth yr arbedion ariannol a sicrhawyd ar gyfer tenantiaid o ganlyniad uniongyrchol i gymorth wyneb yn wyneb ar effaith diwygiadau lles | 903508.28 | 250000 | 200000 | | 338143.29 | Rydym wedi rhagori'n sylweddol ar ein targed eleni. Mae cynllun lleihau biliau Dŵr Cymru, HelpU, wedi cael ei hyrwyddo i'n tenantiaid gan y swyddogion cymorth i denantiaid a thrwy farchnata dros y ffôn. Hefyd, mae ein cynghorydd budd-daliadau lles wedi bod yn llwyddiannus iawn o ran sicrhau budd-daliadau llesiant ychwanegol i denantiaid. |
| 2. Nifer y bobl sy'n cael cymorth i gael y budd-daliadau y mae ganddynt hawl i'w cael – Tai | 1640 | 1200 | 400 | | 1965 | Mae'r cynghorydd budd-daliadau lles wedi bod yn llwyddiannus wrth helpu tenantiaid yn yr adran Rhenti. Rydym hefyd wedi bod yn llwyddiannus wrth hyrwyddo cynllun HelpU Dŵr Cymru. |
| 3. Nifer y bobl sy'n cael cymorth i gael y budd-daliadau y mae ganddynt hawl i'w cael – Cefnogi Pobl | 1730 | 1200 | 1000 | | 1308 | Mae'r data hwn ar gyfer y cyfnod rhwng mis Gorffennaf a mis Rhagfyr. Mae'r gwasanaeth yn cyfrifo ffigur ar gyfer y flwyddyn galendr. Ni ellir ychwanegu'r ffigur at Ch2 i gyfrifo'r cyfanswm blynyddol am y bydd hyn yn arwain at ddyblygu gan y byddai llawer o'r unigolion wedi cael cymorth yn ystod y ddau gyfnod. |

# Amcan Llesiant 2

## Gwella canlyniadau i bob dysgwr, yn enwedig y rhai a allai dangyflawni

***<u>Pam rydym wedi dewis hwn</u>***

Nod yr amcan hwn yw mynd i'r afael â'r bwlch o ran cyrhaeddiad rhwng plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed a'r rhai a fydd yn derbyn yr addysg orau drwy geisio hyrwyddo mwy o gyfleoedd cyfartal a dileu'r rhwystrau y mae'r grŵp hwn o'n dinasyddion yn eu hwynebu.

Fel awdurdod lleol, ein nod yw “y dylai pob plentyn gael y dechrau gorau mewn bywyd, a'r cyfle i lwyddo fel person ifanc ac fel oedolyn”. Wrth gyflawni'r nod hwn, rydym yn cydnabod y gall grwpiau bach o blant a phobl ifanc wynebu mwy o heriau nag eraill. Rydym yn ceisio nodi grwpiau o ddysgwyr a allai dangyflawni'n academaidd, a mynd ati i ddileu'r rhwystrau at ddysgu er mwyn codi eu dyheadau a rhoi mwy o gyfleoedd iddynt lwyddo.

Gall y risg o dangyflawni'n addysgol gael ei nodi drwy nifer o wahanol ffactorau gan gynnwys amddifadedd. Gall gael ei nodi hefyd o ran p'un a oes gan y plentyn neu'r person ifanc angen dysgu ychwanegol, neu b'un a yw'n blentyn sy'n derbyn gofal. Mae ein data'n nodi bod bwlch mewn perfformiad rhwng y rhai yn y grwpiau hyn a'r boblogaeth gyffredinol.

Rydym wedi dewis gwneud rhywfaint o waith dwys yn y maes hwn er mwyn ceisio lleihau'r bwlch hwnnw, a sicrhau bod pob person ifanc yn cael cyfleoedd priodol i'w helpu i lwyddo, yn yr ystafell ddosbarth a'r tu allan iddi.

Gwnawn hyn yn unol â'r pum egwyddor datblygu cynaliadwy oherwydd gwyddom fod gwelliannau addysg hirdymor a'r amrywiaeth eang o fentrau cymorth yn helpu pobl ifanc i gael gwell ansawdd bywyd, ac mae hyn yn dechrau o oedran cynnar. Gall gymryd amser i fentrau ymwreiddio ond, yn aml, cawn ein barnu ar sail canlyniadau blynyddol ac, wrth fesur gwelliant mewn perfformiad, mae'n bwysig deall bod gwell cyfleoedd mewn bywyd ar gael i bobl ifanc er mwyn deall hyn yn y tymor hwy.

Rydym yn dilyn dull integredig ar y cyd ag ysgolion, llywodraethwyr a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA), ac mae gennym hefyd Fforwm Ieuenctid helaeth y gellir ei gynnwys a chydweithio ag ef. Mae'r Fforwm ei hun yn rhan o'r system addysg yn ogystal â systemau ar gyfer gwella ysgolion. Mae'r GCA a'n hysgolion yn bartneriaid allweddol wrth i ni weithio tuag at sicrhau deilliannau gwell i'n disgyblion. Fodd bynnag, pan edrychwn ar achosion tangyflawni, gwyddom fod dyheadau yn aml yn gysylltiedig â chefndir teuluol a bod cysylltiadau rhwng tlodi, amddifadedd a chyflawniad is. Felly, er mwyn atal tangyflawni, rhaid i ni gydweithio â chymunedau ac asiantaethau allweddol sy'n gweithio gyda theuluoedd, er enghraifft Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Cymunedau yn Gyntaf a phartneriaid allweddol eraill.

Ar gyfer y flwyddyn 2017/18, ystyrir bod y Cyngor wedi **llwyddo'n rhannol** i wneud cynnydd tuag at gyflawni'r amcan hwn ar y cyfan.

Mae pob cam gweithredu'n un tymor hwy ac mae angen data haf 2018 yn ogystal â data blynyddoedd academaidd dilynol er mwyn nodi effaith barhaus y gwaith a wneir.

**Beth rydym wedi'i wneud yn dda yn ystod y flwyddyn**

Yn ystod 2017/18, mae pob ysgol wedi pennu targedau ar gyfer Haf 2018 ac wedi ymgymryd â gwaith ymyrryd gyda chymorth gan yr awdurdod lleol a staff y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA). Mae'r GCA wedi monitro'r gwaith o weithredu'r Grant Datblygu Disgyblion a bydd yn gwerthuso'r effaith ar ddiwedd pob blwyddyn academaidd yn unol â'r adroddiadau sy'n ofynnol. Ar hyn o bryd, mae'r GCA yn hyrwyddo'r Cynnig Dysgu Proffesiynol sydd ar gael i staff ysgolion yn ogystal â datblygu'r gwaith o weithredu'r pecyn cymorth ymwybyddiaeth o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod i ysgolion o dymor yr hydref 2018 ymlaen.

Mae'r Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd (JAFF) wedi cael ei werthuso ac mae bellach yn cael ei ddefnyddio'n eang gan ysgolion ar gyfer atgyfeiriadau at wasanaethau ataliol. Hefyd, mae'r rhaglenni gwrthdlodi yn gweithio gyda'r rhaglenni grantiau ehangach er mwyn paratoi ar gyfer prosiect Cyllid Hyblygrwydd y bwriedir ei gyflwyno ym mis Ebrill 2018. Mae'r gwaith a wneir yn lleol ar hyn o bryd wedi canolbwyntio ar gomisiynu prosiectau ar y cyd ar draws ffrydiau ariannu grantiau er mwyn galluogi mwy o bobl i gael gafael ar gymorth, a swyddi a ariennir ar y cyd er mwyn galluogi mwy o deuluoedd i gael cymorth a chynnig parhad i'r teuluoedd mwyaf agored i niwed. Un enghraifft o'r comisiynu ar y cyd sydd wedi gwella llythrennedd rhieni a phlant yw prosiect Rhwydwaith Rhieni PETRA, sydd wedi sicrhau deilliannau sylweddol i deuluoedd hyd yma.

Hyd yn hyn, mae prosiect Plant yn Gyntaf wedi bod yn gweithio gyda'r ddwy gymuned i glywed lleisiau'r gymuned er mwyn nodi'r anghenion a llunio'r atebion ar y cyd i sicrhau effaith ar y deilliannau i blant a phobl ifanc. Mae'r cam ymgysylltu a mapio cychwynnol wrthi'n dod i ben a bydd y prosiect yn symud ymlaen i'r cam cynllunio a gweithredu yn y gymuned. Dyma pam mae'r amcan hwn wedi'i gwblhau'n rhannol a pham mae'n dal i fod yn gam gweithredu yng Nghynllun Llesiant pum mlynedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae'r gweithiwr cymorth i deuluoedd wedi cael rhywfaint o lwyddiant cychwynnol wrth gyflwyno rhaglenni rhianta ar draws yr ystod oedran, ac mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol o ran magu hyder rhieni a phlant. Bydd y gwaith hwn yn parhau mewn mwy o fanylder wrth i ni symud ymlaen at y swydd a ariennir ar y cyd yn 2018/19.

**Pa feysydd y mae angen i ni eu gwella, a sut y gallwn wneud hynny?**

Rydym yn dal i aros am y deilliannau ar gyfer Haf 2018 er mwyn dangos effaith ymyriadau yn ystod blwyddyn academaidd 2017/18.

Bydd parhad swyddi a phrosiectau cyflawni a gomisiynwyd ar y cyd yn cael ei fonitro a'i werthuso o ran effaith yn ystod 2018/19 cyn adnewyddu contractau erbyn mis Ebrill 2019. Bydd y ffocws ar ardal Ysgol Gynradd Sant Iago gyda Bwrdd Cynghrair ar gyfer Newid a chynllun Plant yn Gyntaf yn sefydlu'r fframwaith damcaniaeth newid a chaiff y deilliannau a'r mesurau eu gwerthuso er mwyn nodi effaith y newidiadau a wneir i systemau rhwng 2017 a 2020.

## Camau Gweithredu

| Teitl | Sylw | Coch Melyn Gwyrdd | Statws Cyffredinol | % Wedi'i Gwblhau |
|---|---|---|---|---|
| 1. Gweithio mewn partneriaeth â'r GCA er mwyn sicrhau bod targedau heriol yn cael eu pennu ar gyfer pob dysgwr, yn enwedig y rhai a allai dangyflawni | Mae'r GCA a'r awdurdod lleol yn cydweithio'n agos ag ysgolion i greu diwylliant o her wrth bennu targedau i ddisgyblion, gyda ffocws arbennig ar y dysgwyr mwyaf agored i niwed, gan bennu targedau digon uchel i bob disgybl unigol gyda'r nod o gau'r bwlch o ran cyrhaeddiad. | | Wedi'i Gwblhau | 100 |
| 2. Gweithio gydag ysgolion i sicrhau y ceir y budd mwyaf posibl o'r Grant Amddifadedd Disgyblion fel bod disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim yn gallu manteisio ar yr holl gyfleoedd dysgu priodol sydd ar gael | Mae'r GCA yn rhoi her briodol yn ogystal â chymorth ac arweiniad er mwyn sicrhau bod defnydd arfaethedig yr ysgolion o'r Grant Datblygu Disgyblion yn bodloni'r meini prawf ac yn anelu at gael effaith ar y dysgwyr mwyaf agored i niwed. Caiff yr effaith ei monitro dros y flwyddyn academaidd ac rydym yn aros am ddeilliannau data Haf 2018. | | Wedi'i Gwblhau | 100 |
| 3. Rhoi strategaethau ar waith er mwyn gweithio tuag at gau'r bwlch mewn perfformiad rhwng y rhai sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim, a'r rhai nad ydynt yn cael Prydau Ysgol am Ddim | Mae'r GCA yn canolbwyntio ar gau'r bwlch ym mherfformiad y dysgwyr mwyaf agored i niwed drwy roi'r Strategaeth Tegwch a Llesiant ar waith, cynnig dysgu proffesiynol dilynol yn ogystal â'r pecyn cymorth ar gyfer hunan arfarnu ymwybyddiaeth o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a gaiff ei roi ar waith yn ystod hydref 2018. | | Wedi'i Gwblhau | 100 |
| 4. Monitro a gwerthuso'r asesiad sydd newydd gael ei gyflwyno (PIVATS) ar gyfer disgyblion a addysgir yng Nghae'r Drindod a chanolfannau adnoddau ALI | Mae Ysgol Cae'r Drindod a chanolfannau adnoddau arbenigol wedi ymgorffori asesiadau PIVATS ar gyfer y rhan fwyaf o ddisgyblion unigol, gyda sesiynau cymedroli'n sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio a'u rhoi ar waith yn gyson. | | Wedi'i Gwblhau | 100 |
| 5. Monitro a gwerthuso'r strategaeth amlasiantaeth er mwyn cynnig gwell cyfleoedd dysgu yn ardal Sant Iago | Mae Sant Iago a Fochriw yn ardaloedd Plant yn Gyntaf. Mae Bwrdd Cynghrair ar gyfer Newid wedi sefydlu'r grŵp llywio Plant yn Gyntaf ar gyfer y gwaith o ddatblygu mesurau a fframwaith deilliannau yn lleol. Mae gwaith ymgysylltu cychwynnol wedi adeiladu ar y prosiectau a gomisiynwyd ar y cyd, gan fapio'r ddarpariaeth bresennol ym mhob un o'r rhaglenni gwrthdlodi a gwasanaethau statudol yn ogystal â chlywed llais y gymuned wrth nodi ei hanghenion. Ymhlith y camau nesaf mae hyrwyddo deilliannau'r prosiectau cydweithredol, datblygu fframwaith mesurau'r ddamcaniaeth newid, ac ystyried yr angen am newid systemau yn lleol er mwyn sicrhau'r deilliannau gorau posibl i blant, pobl ifanc a theuluoedd. | | Wedi'i Gwblhau'n Rhannol | 75 |

**Faint rydym wedi'i wneud?**

| Teitl | Gwirioneddol | Targed | Ymyriad | Coch Melyn Gwyrdd | Canlyniad 12 mis yn ôl | Sylw |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. EDU003 (PAM/004) Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, sy'n cyflawni'r Dangosydd Pwnc Craidd, fel y'i pennwyd gan Asesiad Athro | 90.10 | 90.40 | 85.00 | | 90.40 | Blwyddyn Academaidd 2016/17 |
| 2. EDU004 (PAM/005) Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, sy'n cyflawni'r Dangosydd Pwnc Craidd, fel y'i pennwyd gan Asesiad Athro | 84.10 | 86.10 | 80 | | 82 | Blwyddyn Academaidd 2016/17 |
| 3. Canran y disgyblion 15 oed a gyflawnodd drothwy lefel 2 gan gynnwys llwyddo mewn TGAU L2 Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a Mathemateg | 49.90 | 56 | 42 | | 53 | Blwyddyn Academaidd 2016/17. Noder: Mae'r dangosydd hwn wedi newid ac nid ydym yn casglu'r wybodaeth hon ar gyfer plant 15 oed mwyach. Caiff y data newydd eu casglu ar gyfer carfan Blwyddyn 11. |

**Pa mor dda y gwnaethom ni?**

| Teitl | Gwirioneddol | Targed | Ymyriad | Coch Melyn Gwyrdd | Canlyniad 12 mis yn ôl | Sylw |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. Y ganran sy'n cael prydau ysgol am ddim sy'n cyflawni'r Dangosydd Pwnc Craidd (DPC) yng Nghyfnod Allweddol 2 | 78.90 | 78.50 | 65 | | 80.80 | Blwyddyn Academaidd 2016/17 |
| 2. Y ganran sy'n cael prydau ysgol am ddim sy'n cyflawni'r Dangosydd Pwnc Craidd (DPC) yng Nghyfnod Allweddol 3 | 68.50 | 69.50 | 55 | | 65.10 | Blwyddyn Academaidd 2016/17 |
| 3. Y ganran sy'n cael prydau ysgol am ddim sy'n cyflawni trothwy Lefel 2 gan gynnwys llwyddo mewn TGAU Lefel 2 Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg | 25.30 | 38.40 | 25 | | 30.10 | Blwyddyn Academaidd 2016/17 - Mae'r dangosydd hwn wedi newid ac nid ydym yn casglu'r wybodaeth hon ar gyfer plant 15 oed mwyach. Caiff y data newydd eu casglu ar gyfer carfan Blwyddyn 11. |
| 4. EDU016a Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd | 94.70 | 95.30 | 92 | | 94.65 | Blwyddyn Academaidd 2016/17 |
| 5. EDU016b Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd | 93.30 | 94.00 | 90 | | 93.40 | Blwyddyn Academaidd 2016/17 |

## Oes unrhyw un wedi elwa?

| Teitl | Gwirioneddol | Targed | Ymyriad | Coch Melyn Gwyrdd | Canlyniad 12 mis yn ôl | Sylw |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. EDU002i Canran y disgyblion (gan gynnwys y rhai yng ngofal awdurdod lleol) mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a oedd yn 002 oed ar y 31 Awst blaenorol, sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb gymhwyster allanol a gymeradwywyd. | 1.20 | 1.10 | 1.40 | | 1.10 | Blwyddyn Academaidd 2016/17 |
| 2. EDU002ii Canran y disgyblion yng ngofal awdurdod lleol mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a oedd yn 15 oed ar y 31 Awst blaenorol, sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb gymhwyster allanol a gymeradwywyd. | 8.00 | 0 | 10 | | 18.18 | 2/25 o ddisgyblion heb gymhwyster cydnabyddedig yn ystod Blwyddyn Academaidd 2016/7 |
| 3. Canran y bobl ifanc 16 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) ym mis Hydref (Blwyddyn 11). | 1.90 | 1.30 | 2 | | 2.10 | Canlyniad terfynol ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2015/16, sef gostyngiad o gymharu â'r flwyddyn academaidd flaenorol. |

# Amcan Llesiant 3
## Cau'r bwlch mewn disgwyliad oes rhwng trigolion yn ardaloedd mwyaf difreintiedig ac ardaloedd lleiaf difreintiedig y fwrdeistref

**Pam rydym wedi dewis hwn**

Prif nod y flaenoriaeth hon yw gwella ffordd o fyw ein poblogaeth leol fel bod pobl yn cydnabod eu hiechyd a'u llesiant eu hunain ac yn cymryd cyfrifoldeb amdanynt. Yn ei dro, bydd hyn yn lleihau'r amrywiad o ran disgwyliad oes iach fel bod iechyd a llesiant unigolion difreintiedig yn gwella i gyfateb i'r lefelau a geir ymhlith unigolion breintiedig.

Gweledigaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yw bod Bwrdeistref Sirol Caerffili yn lle gwell i fyw a gweithio ynddo ac ymweld ag ef. Rhaid i hyn fod yn wir ar gyfer pob un o'r trigolion. Yn ystadegol, mae lefelau sylweddol uwch o salwch ymhlith trigolion sy'n byw mewn ardaloedd â lefel uchel o amddifadedd, gan gynnwys marwolaethau yn sgil clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint, canser yr ysgyfaint, diabetes, salwch meddwl a chlefydau anadlol.

Cafodd yr amcan hwn ei nodi gan y Cyngor yn 2015, gan fod data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (2005-09) yn dangos bod bwlch anghydraddoldeb mewn disgwyliad oes o 8.5 blynedd i ddynion a 7.8 blynedd i fenywod. Dyma'r gwahaniaeth mewn disgwyliad oes rhwng y bobl hynny sy'n byw yn y cymunedau mwyaf difreintiedig a'r cymunedau lleiaf difreintiedig ledled ein bwrdeistref sirol. Y bwlch o ran disgwyliad oes iach oedd 19.2 blynedd i ddynion a 17.4 blynedd i fenywod. Roedd y bwlch hwn wedi cynyddu mewn blynyddoedd diweddar.

Mae dewisiadau ffordd o fyw afiach yn sylweddol uwch mewn ardaloedd mwy difreintiedig ac mae hyn yn creu ffactorau risg a allai effeithio ar iechyd ein trigolion, yn enwedig ysmygu, gordewdra, anweithgarwch corfforol a deiet gwael. Un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru yw bod angen i ni wella disgwyliad oes iach i bawb a chau'r bwlch rhwng pob lefel o amddifadedd 2.5% ar gyfartaledd erbyn 2020. Mae pum lefel i gyd – 1 yw'r mwyaf cefnog a 5 yw'r mwyaf difreintiedig.

Ar gyfer y flwyddyn 2017/18, ystyrir bod y Cyngor wedi **llwyddo** i wneud cynnydd tuag at gyflawni'r amcan hwn ar y cyfan. O'r pum cam gweithredu, mae tri wedi'u cwblhau ac rydym wedi gwneud cynnydd da ar y ddau sy'n weddill. Mae llawer o'n mesurau perfformiad wedi cyrraedd y targedau neu ragori arnynt.


Yng Nghymru gyfan a'r fwrdeistref sirol, mae iechyd yn gyffredinol yn gwella. Mae pobl yn byw yn hirach, ac mae cyfraddau marwolaeth oherwydd canser a chlefydau'r galon yn lleihau. Ers cyhoeddi'r amcan hwn, mae'r data diweddaraf a gyhoeddwyd yn 2016 gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dangos darlun sy'n gwella i drigolion Caerffili.

**Beth rydym wedi'i wneud yn dda yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?**

Mae'r data diweddaraf a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dangos darlun sy'n gwella i drigolion bwrdeistref sirol Caerffili. Mae'r bwlch mewn blynyddoedd o ran disgwyliad oes a disgwyliad oes iach ar adeg genedigaeth ymysg dynion yng nghymunedau mwyaf difreintiedig a chymunedau lleiaf difreintiedig y sir wedi lleihau. Lleihaodd y bwlch mewn disgwyliad oes iach ar gyfer dynion o 18.6 mlynedd i 13 mlynedd. Ar gyfer merched, er bod y bwlch mewn disgwyliad oes cyffredinol wedi cynyddu 0.2 mlynedd, mae'r bwlch mewn disgwyliad oes iach wedi lleihau 1.6 mlynedd. Mae'n werth tynnu sylw at y gwelliant hwn.

Mae cyfran yr oedolion sy'n smygu wedi lleihau'n raddol yn ystod y degawd diwethaf.

Ers i'r Filltir Ddyddiol gael ei lansio yn 2017, mae mwy na 50% o'n hysgolion babanod a chynradd wedi mabwysiadu'r fenter hon sy'n sicrhau bod disgyblion yn gwneud ymarfer corff yn rheolaidd fel rhan o'u trefn ddyddiol.



**Pa feysydd y mae angen i ni eu gwella, a sut y gallwn wneud hynny?**

Mae ffyrdd afiach o fyw yn datblygu, o leiaf yn rhannol, oherwydd anghydraddoldebau yn yr amgylchiadau y mae pobl yn cael eu geni, yn tyfu, yn byw ac yn gweithio ynddynt. Mae llawer o waith i'w wneud o hyd i leihau'r anghydraddoldebau hyn. Mae'n bwysig nodi bod nifer yr adnoddau yn y maes gwaith hwn wedi lleihau a bod rhaglenni wedi newid yn sylweddol ers pennu'r amcan hwn.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, defnyddiwyd data o Asesiad o Lesiant Lleol Ardal Bwrdeistref Sirol Caerffili 2017 i adolygu ac ailgyfeirio'r amcan hwn gan ganolbwyntio ar y meysydd lle y gall Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gael yr effaith fwyaf. Bydd y ffocws newydd yn ystyried rôl y Cyngor yn y gwaith o ddarparu amgylchedd cefnogol i drigolion fwynhau ffordd iach o fyw.

## Camau Gweithredu

| Teitl | Sylw | Coch Melyn Gwyrdd | Statws Cyffredinol | % Wedi'i Gwblhau |
|---|---|---|---|---|
| 01. Lleihau cyfraddau smygu ymhellach | Mae camau gweithredu cydweithredol wedi cael eu cymryd ym mhob rhan o'r system er mwyn lleihau nifer y bobl sy'n smygu ledled y fwrdeistref sirol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae mentrau a gyflwynir ar lefel leol yn hanfodol er mwyn llwyddo i leihau nifer y bobl sy'n smygu. Ymhlith y gwaith hollbwysig a gyflawnwyd, drwy gydweithio, o fewn Bwrdeistref Sirol Caerffili mae:<br><br>• Camau gorfodi mewn perthynas â thybaco anghyfreithlon<br>• Pryniannau prawf dan oed<br>• Cymorth i roi'r gorau i smygu drwy Helpa Fi i Stopio, gan gynnwys cymorth wedi'i dargedu ar gyfer:<br>  – rhieni / mamau beichiog<br>  – cleifion cyn llawdriniaeth / unigolion â chlefyd y galon / unigolion â chyflyrau iechyd meddwl<br>  – y bobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig<br>• Rhaglenni Rhianta<br>• Rhwydwaith Cynlluniau Ysgolion Iach Cymru<br>• Cynllun Cyn Ysgol Iach a Chynaliadwy<br>• Meysydd Chwarae, Ysgolion, Lleoliadau Gofal Plant ac Ysbytai Di-fwg<br>• Safleoedd Di-fwg<br>• Ymyriadau Gwasanaeth Ieuenctid<br><br>Mae cyfradd yr oedolion sy'n smygu wedi gostwng yn barhaus yn ystod y ddegawd ddiwethaf, o 28% yn 2003/04 a 2004/05 i 21% yn 2014 a 2015 (Arolwg Iechyd Cymru). Mae'r ffordd y caiff y data hyn eu casglu bellach wedi trosglwyddo i Arolwg Cenedlaethol Cymru. Roedd cylch cyntaf Arolwg Cenedlaethol Cymru yn dangos bod ein cyfradd smygu wedi gostwng ymhellach i 18% ond nid oes modd cymharu'r ddwy set o ddata gan fod Arolwg Cenedlaethol Cymru yn defnyddio diffiniadau gwahanol a sampl llai o faint. Yn y dyfodol, bydd data ar gael o Arolwg Cenedlaethol newydd Cymru. Mae'r amcanestyniadau yn dangos y bydd nifer y bobl sy'n smygu yn parhau i leihau.<br><br>Roedd Cynllun Gweithredu Cymru ar Reoli Tybaco (2012) gan Lywodraeth Cymru yn pennu targed ar gyfer lleihau nifer yr oedolion sy'n smygu i 16% erbyn 2020. Mae cyrraedd y targed hwn yn dasg heriol o hyd a bydd angen ymdrech barhaus a chydweithredol gan bob partner. | | Yn Mynd Rhagddo | 65 |
| 02. Cynyddu'r gyfran o oedolion a phlant sydd o bwysau iach | Ers i'r Filltir Ddyddiol gael ei lansio yn 2017, mae mwy na 50% o'n hysgolion babanod a chynradd wedi mabwysiadu'r fenter hon. Mae hynny'n golygu bod mwy nag 8500 o ddisgyblion yn gwneud ymarfer corff yn rheolaidd fel rhan o'u trefn ddyddiol. Disgwylir i ragor o ysgolion ymuno â'r Filltir Ddyddiol ym mis Medi 2018. Dyma un o'r cyfraddau cyfranogi uchaf yng Nghymru. Mae'r fenter hon bellach wedi'i hymwreiddio yng ngwaith craidd Ysgolion Iach Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chwaraeon Caerffili. | | Yn Mynd Rhagddo | 60 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 03. Helpu Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i roi'r rhaglen Byw'n Dda, Byw'n Hirach ar waith ledled y Fwrdeistref Sirol | Cwblhawyd y gwaith o gyflawni'r rhaglen hon ym Mwrdeistref Sirol Caerffili yn 2016/17. Cafodd mwy nag 8700 o drigolion eu gwahodd i gael asesiad risg cardiofasgwlaidd - MOT canol oes mewn 32 o leoliadau yng nghymunedau mwyaf difreintiedig y fwrdeistref sirol. Aeth ychydig yn llai na 4000 o drigolion i gael asesiad, a chafodd 514 gymorth pellach i fanteisio ar ymyriadau dilynol. Nid oes rhagor o wybodaeth ar gael am y cam gweithredu hwn. | | Wedi'i Gwblhau | 100 |

**Camau Gweithredu**

| Teitl | Sylw | Coch Melyn Gwyrdd | Statws Cyffredinol | % Wedi'i Gwblhau |
|---|---|---|---|---|
| 04. Gwella gwybodaeth trigolion am lythrennedd iechyd | Mae Cynllun Ysgolion Iach a Chynaliadwy Caerffili a'r Cynllun Blynyddoedd Cynnar Iach a Chynaliadwy yn cyrraedd targedau Llywodraeth Cymru (gweler y mesurau). Mae'r ffocws hwn ar ymyrryd yn gynnar yn cefnogi'r gwaith o roi'r dechrau gorau mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc.<br>Ymhlith y cyflawniadau yn ystod y 12 mis diwethaf mae:<br>• Mae pob un o'r ysgolion uwchradd y nodwyd eu bod yn gymwys i gymryd rhan yn rhaglen Iechyd Cyhoeddus Cymru, Byw Bywyd, wedi gwneud hynny. Rhaglen atal sydd ar waith mewn ysgolion yw Byw Bywyd, er mwyn galluogi myfyrwyr Blwyddyn 8 (12 a 13 oed) i drafod y risgiau sy'n gysylltiedig â smygu a manteision bod yn ddi-fwg.<br>• Mae'r tîm Ysgolion Iach wedi cynnal gweithdai "Beth sydd mewn sigarét?" mewn wyth ysgol.<br>• Mae'r tîm Ysgolion Iach wedi cynnal dwy sesiwn goginio gyda'i gilydd i athrawon (roedd 30 yn bresennol). Mae'r sesiynau hyn yn uwchsgilio staff i allu cynnal sesiynau coginio'n iach yn yr ysgol. Yn ogystal â'r hyfforddiant, mae adnoddau coginio iach yn y dosbarth wedi cael eu rhoi i bob ysgol<br>• Cafodd chwe ysgol (pob aelod o staff addysgu) hyfforddiant ar addysg rhyw a pherthnasoedd. Hefyd, rhoddwyd yr holl adnoddau perthnasol sydd eu hangen i gyflwyno rhaglen addysg rhyw a pherthnasoedd gynhwysfawr i'r chwe ysgol hynny.<br>• Cynhaliodd y tîm Ysgolion Iach a darparwyr allanol dair sesiwn hyfforddi ar adnoddau E-bug (Hylendid). Cafodd pob un o ysgolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili eu gwahodd i'r sesiynau hyn. Roedd 45 o ysgolion yn bresennol.<br>• Roedd 17 o bobl yn bresennol mewn sesiwn hyfforddi ar ymwybyddiaeth o Anhwylderau Bwyta. Cafodd pob ysgol uwchradd a nyrs ysgol ei gwahodd.<br>• Mae gweithdy llesiant wedi cael ei gynnal mewn tair ysgol (roedd pob aelod o staff yn bresennol)<br>• Hyrwyddwyd a hwyluswyd Regener8 i gynnal gweithdai addysg rhyw a pherthnasoedd i ddisgyblion mewn dwy ysgol<br>• Mae un ysgol wedi derbyn hyfforddiant ar Ddiogelwch Helmedau (pob disgybl) | Gwyrdd | Wedi'i Gwblhau | 100 |
| 05. Ymateb i'r materion allweddol a nodwyd yn Asesiad Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerffili 2017 | Cafodd y drafft terfynol o'r Cynllun Llesiant; 'Y Gaerffili a Garem 2018-2023' ei gymeradwyo'n statudol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyfoeth Naturiol Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn ystod mis Mawrth 2018.<br><br>Mae'r cynllun yn cynnwys cynllun cyflawni lefel uchel pum mlynedd sy'n nodi pum Maes Gweithredu.<br>– Y dechrau gorau mewn bywyd<br>– Gwirfoddoli a phrentisiaethau<br>– Iechyd a llesiant da<br>– Cymunedau cydnerth, mwy diogel<br>– Diogelu a gwella'r amgylchedd naturiol lleol<br><br>Mae'r data o'r asesiad o lesiant hefyd wedi cael eu defnyddio i adolygu ac ailgyfeirio'r amcan hwn gan ganolbwyntio ar y meysydd lle y gall Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gael yr effaith fwyaf. Bydd y ffocws newydd yn ystyried rôl y Cyngor yn y gwaith o ddarparu amgylchedd cefnogol i drigolion fwynhau ffordd iach o fyw. | Gwyrdd | Wedi'i Gwblhau | 100 |

## Faint rydym wedi'i wneud? - Mesurau

| Cyfnod | Teitl | Gwirioneddol | Targed | Ymyriad | Coch Melyn Gwyrdd | Sylw |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ch4 17/18 | Nifer y pryniannau prawf a gynhaliwyd - tybaco i bobl ifanc | 2 | 10 | 5 | | Ychydig iawn o wybodaeth a ddaeth i law am werthiannau i blant o dan oed, sy'n esbonio'r diffyg gweithgarwch. Mae'n ymddangos i ni fod e-sigaréts yn mynd yn broblem. Ni chyflawnwyd unrhyw werthiannau prawf yn ystod chwarter 4 eleni. |

## Pa mor dda y gwnaethom ni? - Mesurau

| Cyfnod | Teitl | Gwirioneddol | Targed | Ymyriad | Coch Melyn Gwyrdd | Sylw |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ch4 17/18 | Nifer y lleoliadau sydd wedi cwblhau'r Cynllun Cyn Ysgol Iach a Chynaliadwy | 17 | 5 | 3 | | |
| 2017/18 | Nifer yr ysgolion sy'n cwblhau cyfnod olaf y Cynllun Ysgolion Iach – 'Gwobr Ansawdd Genedlaethol Llywodraeth Cymru' (Blynyddol) | 9 | 9 | 5 | | |
| Ch4 17/18 | Nifer y lleoliadau gofal plant sy'n cymryd rhan yn y cynllun Blynyddoedd Cynnar Iach – ysgolion (Croniad chwarterol – y flwyddyn hyd yma) | 74 | 50 | 40 | | |
| Ch4 17/18 | Canran yr ysgolion sydd wedi ennill achrediad Ysgol Iach yng nghyfnod 3 (Croniad chwarterol – y flwyddyn hyd yma) | 98 | 95 | 90 | | |
| Ch4 17/18 | Canran yr ysgolion sy'n gweithio tuag at y Wobr Ansawdd Genedlaethol | 80 | 20 | 14 | | |

## Pa mor dda y gwnaethom ni? - Metrig

| Cyfnod | Teitl | Gwirioneddol | Sylw |
|---|---|---|---|
| 2017/18 | Ysmygwyr – Nifer yr oedolion a ddywedodd eu bod yn ysmygu ar hyn o bryd (wedi'i safoni yn ôl oedran – 16 oed a throsodd) – Blwyddyn galendr (cyfartaledd dros ddwy flwyddyn galendr) | 18.00 | Y targed yw 16% erbyn 2020.<br>Mae cyfradd yr oedolion sy'n smygu wedi gostwng yn barhaus yn ystod y degawd diwethaf, o 28% yn 2003/04 a 2004/05 i 21% yn 2014 a 2015 (Arolwg Iechyd Cymru). Mae'r ffordd y caiff y data hwn eu casglu bellach wedi trosglwyddo i Arolwg Cenedlaethol Cymru. Roedd cylch cyntaf Arolwg Cenedlaethol Cymru yn dangos bod ein cyfradd smygu wedi gostwng ymhellach i 18% ond nid oes modd cymharu'r ddwy set o ddata gan fod Arolwg Cenedlaethol Cymru yn defnyddio diffiniadau gwahanol a sampl llai o faint. Yn y dyfodol, bydd data ar gael o Arolwg Cenedlaethol newydd Cymru. Mae'r amcanestyniadau yn dangos y bydd nifer y bobl sy'n smygu yn parhau i leihau. |

## Gwybodaeth arall am berfformiad – Metrigau

| Teitl | Gwirioneddol | Sylw |
|---|---|---|
| 01. Canran y bobl a oedd wedi gwneud ymarfer corff ar 5 diwrnod neu fwy yn yr wythnos ddiwethaf – Canran yr oedolion wedi'i safoni yn ôl oedran – Caerffili | 26 | Mae hyn wedi gostwng o 28% yn 2010/11. Mae hyn yn is na gweddill Gwent a chyfartaledd Cymru. |
| 02. Canran yr oedolion a fwytaodd bum dogn neu fwy o ffrwythau a llysiau y diwrnod cynt (wedi'i safoni yn ôl oedran) – Caerffili | 26 | Mae hyn wedi gostwng o 29% yn 2011/12. Mae hyn yn debyg i Flaenau Gwent ond yn is na gweddill Gwent a chyfartaledd Cymru. |
| 03. Canran y bobl sydd dros bwysau neu'n ordew – Canran yr oedolion wedi'i safoni yn ôl oedran – Caerffili | 63 | Y gyfradd hon yw'r uchaf yng Ngwent, ac mae'n uwch nag unrhyw ranbarth yn Lloegr. |
| 04. Canran y plant 4/5 oed a gaiff eu categoreiddio fel rhai sydd dros bwysau neu'n ordew yng Nghaerffili | 27 | Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Gwent ac yn uwch nag unrhyw ranbarth yn Lloegr. |
| 05. Bwlch mewn disgwyliad oes iach rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a'r ardaloedd lleiaf difreintiedig yng Nghaerffili ar gyfer Dynion | 13 | Ar gyfer y cyfnod 2010-2014. Mae hwn wedi lleihau o 18.6 mlynedd yn 2005-2009. |
| 06. Bwlch mewn disgwyliad oes iach rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a'r ardaloedd lleiaf difreintiedig yng Nghaerffili ar gyfer Menywod | 14.60 | Ar gyfer y cyfnod 2010-2014. Mae hyn wedi lleihau 1.6 mlynedd ers 2005-09. |
| 07. Ymgyrch tybaco anghyfreithlon – nifer y camau gorfodi | 3 | |
| 08. Ymgyrch tybaco anghyfreithlon – nifer yr adroddiadau gwybodaeth a dderbyniwyd | 21 | O ran yr ymgyrch tybaco anghyfreithlon, mae'r wybodaeth yn mynd yn brin. Rydym yn bwriadu adfywio'r ymgyrch tua diwedd y flwyddyn. |

# Amcan Llesiant 4
## Lleihau ein hôl troed carbon

**Pam rydym wedi dewis hwn**

Mae ein hinsawdd yn newid o ganlyniad uniongyrchol i allyriadau nwyon tŷ gwydr o weithgarwch dynol. Un o'r nwyon tŷ gwydr mwyaf cyffredin yw Carbon deuocsid (CO2), a allyrrir yn bennaf yn sgil llosgi tanwydd ffosil fel glo, olew a nwy naturiol. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i weithredu er mwyn lleihau allyriadau carbon ac mae wedi cyflwyno'r Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd (2008). Ategir hyn ymhellach gan Strategaeth Llywodraeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd 2010 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Mae allyriadau carbon blynyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn fwy na 26,000 o dunelli, sy'n ôl troed carbon cymharol fawr. Mae gennym rwymedigaeth i gymryd camau i leihau ein hallyriadau carbon cymaint â phosibl ac ystyried yr effaith negyddol gysylltiedig ar yr amgylchedd o ddifrif. Pennwyd yr amcan hwn yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel un hirdymor ac mae ein camau lleihau carbon yn ymestyn tan 2050. Bydd rhai cynlluniau ‘buddsoddi i arbed’ yn cael eu had-dalu mewn llai na 10 mlynedd ond bydd eu technoleg yn para hyd at 30 mlynedd.

Rydym yn gweithio mewn modd integredig a chydweithredol drwy rannu gwybodaeth ac arfer da a chynnal amrywiaeth eang o hyfforddiant a gweithgarwch codi ymwybyddiaeth er mwyn sicrhau bod pobl yn gwybod sut i wneud y defnydd gorau o'r technolegau a'r arferion sydd ar gael gan sicrhau'r effaith orau bosibl.

Rydym yn dibynnu ar bob cyflogai, disgybl a thrigolyn, ac yn cynnwys pob un ohonynt, i gyfrannu at y nod o leihau carbon am eu bod yn cael dylanwad uniongyrchol ar y lefelau o garbon a allyrrir yn y fwrdeistref. Hefyd, rydym yn cydweithio â sefydliadau cynghori ar reoli carbon, cyflenwyr cyfleustodau a gwasanaeth Cymru Effeithlon (sydd wedi cymryd lle yr Ymddiriedolaeth Garbon).

Rhaid i'n holl gynigion ar gyfer gwella gael eu cyfiawnhau a'u dilysu a rhaid iddynt ddangos ein bod yn deall yr achosion er mwyn gallu cael cyllid nid yn unig i atal y cynnydd mewn lefelau allyriadau carbon ond gwella'r lefelau hynny hefyd.

Ar gyfer y flwyddyn 2017/18 ystyrir bod y Cyngor wedi **llwyddo'n rhannol** i wneud cynnydd tuag at gyflawni'r amcan hwn am fod ein holl gamau gweithredu a mesurau yn rhan o strategaeth yn y tymor hwy ac am y byddant yn parhau am nifer o flynyddoedd.

**Beth rydym wedi'i wneud yn dda yn ystod y flwyddyn**

Yn unol â'r Strategaeth Lleihau Carbon (2009), roedd yr Amcan Llesiant hwn yn canolbwyntio ar bedair blaenoriaeth i leihau allyriadau, sef: Gwaith Cynnal a Chadw Da; Buddsoddi i Arbed; Dylunio a Rheoli Asedau; a Thechnoleg Adnewyddadwy.

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at y cynnydd a'r cyflawniadau allweddol yn ystod y flwyddyn. Drwy'r camau gweithredu amrywiol, rydym yn gweld gwelliant cadarnhaol clir mewn gweithgareddau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth. Mae ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r newid yn yr hinsawdd a'r cysylltiad ag ôl troed carbon yn uchel ac mae dinasyddion Bwrdeistref Sirol Caerffili yn disgwyl i'r Awdurdod gymryd camau rhesymol i leihau'r ynni a ddefnyddir gan ei adeiladau.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, ynghyd â phob sefydliad arall, o dan bwysau cynyddol gan ddeddfwriaeth ar gyfer y DU gyfan sy'n anelu at wella effeithlonrwydd ynni, er enghraifft, cyflwyno Tystysgrifau Ynni i'w Harddangos a Thystysgrifau Perfformiad Ynni a chydymffurfio â Chynllun yr Ymrwymiad Lleihau Carbon (sef treth garbon lwyr sy'n arwain at gostau i'r awdurdod).

**Prif benawdau:**

Gellir dangos yr arbedion a sicrheir drwy ddefnyddio llai o ynni a lleihad mewn allyriadau carbon drwy'r canlynol:

- Gwaith Cynnal a Chadw Da; lle y bydd gwybodaeth am reoli ynni yn parhau i gael ei rhannu â'n rheolwyr safle, swyddfeydd corfforaethol, canolfannau ac ysgolion, a rhyngddynt.
- Parhau i weithredu technolegau Buddsoddi i Arbed, yn enwedig cyflwyno goleuadau effeithlon o ran ynni sy'n sicrhau arbedion carbon sylweddol ac sy'n gwella amgylcheddau gwaith ac addysgu.
- Rheoli Asedau. Er enghraifft; moderneiddio ysgolion a chanolfannau hamdden ac ad-drefnu swyddfeydd/canolfannau a'u defnyddio'n well.
- Technolegau adnewyddadwy, er enghraifft gosodiadau ffotofoltäig ar dri safle.
- Mae'r astudiaeth ddichonoldeb/peilot a gynlluniwyd i brofi a chanfod cyfleoedd i ddefnyddio cerbydau trydan wedi dechrau'n araf am nad oes digon o gerbydau ar gael. Fodd bynnag, mae'r ymateb i'r ychydig brofi sydd wedi cael ei wneud wedi bod yn gadarnhaol hyd yma, a bydd ystyriaethau pellach yn mynd rhagddynt yn ystod 2018/19.

## Camau Gweithredu

| Cyfnod | Teitl | Sylw | Coch Melyn Gwyrdd | Statws Cyffredinol | % Wedi'i Gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| Ch4 17/18 | Codi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o reoli carbon a gwella rheolaeth drwy gyngor, addysg, hyfforddiant, canllawiau, sgiliau a gweithgareddau gweithredol | Rydym wedi cofrestru 104 o weithgareddau unigol sy'n codi ymwybyddiaeth, gan amrywio o negeseuon e-bost i ysgolion, cyngor ar y fewnrwyd a chanllawiau wedi'u teilwra ar gyfer safleoedd unigol.<br><br>Ymhlith yr enghreifftiau mae cyngor ar y fewnrwyd ar y canlynol:<br>• Saith eitem ar y fewnrwyd yn rhoi canllawiau ar arbed cyfleustodau.<br>• Canllawiau mewn perthynas â dŵr sy'n gollwng i amrywiaeth o eiddo.<br>• Nifer o ddiweddariadau i eiddo yr effeithiwyd arnynt ynglŷn â rhybuddion TRIAD mewn perthynas â chostau contractau trydan.<br>• Cyflwyniad ar arbed ynni i blant mewn ysgolion amrywiol.<br>• Canllawiau ar reoli gwres i ysgolion ar ddechrau cyfnodau o wyliau<br>• Cyflwynwyd costau'r Dreth Garbon i'r adran cyllid addysg ar gyfer cyllidebu ysgolion.<br>• Dosbarthwyd nodyn gwybodaeth yn amlinellu manteision y goleuadau LED newydd yn Nhŷ Penallta.<br><br>• Amlinellu manteision ac argaeledd cynllun cyllido buddsoddi i arbed LAEF<br>• Gwaith Cynnal a Chadw Da – cyngor ar arbedion ynni cyffredinol.<br>• Mae'r Gaeaf yn Dod – arbed arian ar wres.<br>• Amrywiaeth o adroddiadau ar ddefnyddio ynni i reolwyr, er enghraifft Canolfan Hamdden Caerffili a Thŷ Penallta.<br><br>Yn ogystal â'r deunydd codi ymwybyddiaeth uchod, anfonwyd cyngor drwy e-bost yn benodol i ysgolion gan gynnwys:<br><br>• Nodyn canllaw Diffodd ac Arbed a ddosbarthwyd i ysgolion.<br>• Mesuryddion Dŵr Llai o Faint.<br>• Cafodd pob ysgol gynnig hen oleuadau a dynnwyd o Dŷ Penallta i'w hailddefnyddio. Yn y pen draw, cawsant eu cymryd gan Ysgol Gyfun Heolddu i'w defnyddio i ddatrys eu problemau goleuo dros dro.<br>• Cyngor ar arbed dŵr<br>• Rhestr Wirio ar gyfer Cau dros yr Haf – bydd y rhestr hon yn cael ei dosbarthu cyn pob gwyliau ac mae'n cwmpasu –<br>Mesuryddion, Gwres, Cyfarpar a Chynnal a Chadw.<br>• Manteision Systemau Rheoli Ynni Adeiladau o ran rheoli costau gwresogi.<br>• Dŵr Cudd – ymwybyddiaeth o ddefnydd o ddŵr<br><br>Gwnaethom ysgrifennu at ysgrifennydd pob canolfan gymunedol yn rhoi cyngor ar gyflenwyr cyfleustodau.Gwnaethom roi arweiniad a chynnig wedi'i gostio i Sefydliad y Glowyr yn y Coed Duon gael aráe ffotofoltäig.  Byddai'n costio £29k, yn cynhyrchu 29,500kW y flwyddyn ac wedi'i ad-dalu mewn 8.3 mlynedd. Byddai'r cynllun yn arbed 13 o dunelli o garbon y flwyddyn.<br><br>Gwnaethom roi hyfforddiant i 31 o ysgolion ar effeithlonrwydd ynni a oedd wedi'i anelu'n uniongyrchol at blant ysgol ond yn cynnwys ambell aelod o staff hefyd.<br><br>Gwnaethom gysylltu â sawl safle unigol mewn perthynas â chyflenwadau cyfleustodau lle'r oeddem yn amau y gall fod problem o ran defnydd. Lluniwyd graffiau yn dangos cynnydd sydyn mewn defnydd.<br><br>Rhoddwyd hyfforddiant ar Systemau Rheoli Ynni (boeleri) i Ysgol Santes Gwladys ac Ysgol Gynradd Rhisga. |  | Wedi'i Gwblhau | 100 |

## Camau Gweithredu

| Cyfnod | Teitl | Sylw | Coch Melyn Gwyrdd | Statws Cyffredinol | % Wedi'i Gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| Ch4 17/18 | Rheoli'r defnydd o'n cyfleusterau yn well drwy: ad-drefnu asedau (stoc eiddo), archwiliadau ynni a chyfleustodau, ac astudiaeth o ddichonoldeb buddsoddiadau pellach mewn technoleg yn ein portffolio eiddo | Gwnaethom gynnal naw archwiliad ynni a dŵr manwl gan amlinellu cyfleoedd i wneud gwelliannau o ran ynni:<br>- Ysgol Gynradd Gatholig Santes Helen<br>- Ysgol Gynradd Bryn Awel<br>- Canolfan Hamdden Caerffili<br>- Canolfan Hamdden Rhisga<br>- Ysgol Iau Llancaiach<br>- Canolfan Gymunedol Hanger 81<br>- Swyddfeydd yn: Mill Road, Tŷ Gilfach, Foxes Lane, Tŷ Graddfa, Tŷ Penmaen<br>- Canolfan Hamdden Trecelyn<br>- Ysgolion cynradd: Ysgol Gilfach Fargoed, Ysgol Ifor Bach, Ysgol y Parc, Ysgol Penalltau<br><br>Rydym wedi buddsoddi arian i arbed ynni, carbon a chostau drwy gynllun LAEF. Gweler tudalen 5 am ragor o fanylion am y prosiectau allweddol.<br><br>Y cyfanswm a fuddsoddwyd yn 2017/18 oedd £112k, a fydd yn arbed 61 o dunelli o garbon y flwyddyn. Mae prosiectau ychwanegol wedi cael eu nodi ar gyfer 2018/19. Mae gwaith parhaus i wella goleuadau swyddfa yn Nhŷ Penallta wedi'i drefnu ar gyfer tymor yr hydref 2018/19.<br><br>Rydym wedi ystyried a gwrthod prosiectau yn seiliedig ar gyfraddau ad-dalu hir ar gyfer:<br>- Ysgol Gynradd y Deri (goleuadau LED, cyfnod ad-dalu o 9.3 mlynedd)<br>- Maes Parcio Parc Tredomen (goleuadau LED, cyfnod ad-dalu o 14 mlynedd)<br>- Ysgol Gynradd Plasyfelin (goleuadau LED). Nid yw'r adeilad yn addas.<br>- Cae 3G Pontlotyn (goleuadau LED)<br>- Hanger 81 (goleuadau LED, 20 mlynedd)<br>- Amgueddfa'r Tŷ Weindio (LED, 11 mlynedd)<br><br>Mae cynlluniau solar ffotofoltäig wedi cael eu nodi ar gyfer tri safle (gan gynnwys Canolfan Hamdden Rhisga, Canolfan Busnes a Thechnoleg Tredomen a Chanolfan Rhagoriaeth Chwaraeon Ystrad Mynach) sy'n werth cyfanswm o £161k. Rhagwelir y bydd arbedion carbon blynyddol gwerth mwy na 51 o dunelli'r flwyddyn yn cael eu sicrhau ar y safleoedd hyn ar gyfer yr 20+ mlynedd nesaf, ac amcangyfrifir y bydd elw oes syml o tua £280k yn cael ei gynhyrchu. Caiff 582 o baneli ffotofoltäig eu gosod.<br><br>Mae Tŷ Dyffryn bellach yn wag ac mae'r staff wedi adleoli i swyddfeydd eraill. Pan oedd yn cael ei ddefnyddio, roedd allyriadau carbon blynyddol yr adeilad hwn tua 190 o dunelli y flwyddyn a bydd y rhan fwyaf o'r allyriadau hyn yn cael eu harbed bellach.<br><br>Mae Ysgol Gyfun Oakdale ac Ysgol Gyfun Pontllanfraith wedi cau ac mae Ysgol Uwchradd Islwyn wedi cymryd eu lle. Goleuadau LED a ddefnyddir ym mhob rhan o Ysgol Uwchradd Islwyn, mae lefelau inswleiddio'r ysgol yn well ac mae'n adeilad llai na'r hen rai. Ceir cyfnodau byr pan na fydd yr adeilad yn defnyddio unrhyw drydan o'r grid trydan. Mae'r rhain yn ffactorau sylweddol sy'n cyfrannu at yr arbedion carbon a wneir.<br><br>Yn ogystal â'n prosiectau ffotofoltäig ar raddfa fwy, cafodd systemau ffotofoltäig ar raddfa fach hyd at 4kW eu gosod mewn 17 o ysgolion, sy'n arbed tua 32 o dunelli o garbon y flwyddyn ac a fydd yn cael eu defnyddio i addysgu disgyblion ysgol am ynni cynaliadwy.<br><br>Bydd yr awdurdod penderfynu yn ystod hydref 2018 p'un a fydd yn newid y stoc goleuadau stryd yn oleuadau LED. | | Parhaus | 85 |

## ALl4 – Rheoli Carbon: Lleihau ein hôl troed carbon

| Cyfnod | Teitl | Sylw | Coch Melyn Gwyrdd | Statws Cyffredinol | % Wedi'i Gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| Ch4 17/18 | Astudiaeth ddichonoldeb a threialu integreiddio cerbydau trydan/hybrid mewn rhannau o'n fflyd cerbydau | Mae nifer o fannau gwefru araf i'w defnyddio dros nos wedi cael eu gosod: Chwech yn Nhŷ Penallta a phump yng Nghanolfan Tir y Berth.<br><br>Gwnaeth ein gwasanaeth Pryd ar Glud a'n Tîm Polisi dreialu cerbyd trydan am wythnos ym mis Gorffennaf 2017 ac roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn. Roedd y staff o'r farn ei bod yn hawdd iawn addasu i ddefnyddio'r cerbyd a'i wefru a'i bod yn bleser ei yrru a'i ddefnyddio yn gyffredinol. Yr unig sylw a gafwyd ganddynt nad oedd yn gadarnhaol oedd bod y cerbyd yn dawel iawn gan nad oedd sŵn injan.<br><br>Rydym yn aros am gadarnhad o argaeledd a phris ar gyfer prydlesu tri cherbyd (dau ar gyfer y gwasanaeth pryd ar glud ac un cerbyd i'w rannu). Caiff y cerbydau hyn eu defnyddio gan amrywiaeth o gyflogeion/gwasanaethau, er mwyn iddynt allu penderfynu p'un a allent ddarparu eu gwasanaeth gan ddefnyddio cerbyd trydan.<br><br>Rydym hefyd yn aros am gerbyd arddangos i'n Gwasanaethau Cefn Gwlad ei dreialu er mwyn penderfynu p'un a allant ddefnyddio cerbyd trydan. Os bydd y treial yn llwyddiannus, byddant yn prydlesu un cerbyd.<br><br>Ar ddiwedd mis Mawrth 2018, rhoddwyd cynigion ar waith er mwyn ystyried gosod mannau pŵer 'gwefru cyflym' ychwanegol yn Nhŷ Penallta. Bydd hyn yn rhoi cymorth pellach i wasanaethau'r cyngor ac yn cynnig cyfleoedd i ddefnyddio'r cerbydau trydan, gan y byddant yn gallu gwefru yn ystod y dydd yn ogystal â defnyddio'r mannau gwefru araf dros nos. | | Parhaus | 50 |

Rydym wedi buddsoddi arian i arbed ynni, carbon a chostau drwy gynllun LAEF. Y prosiectau allweddol yw:

| Safle | Math o Brosiect | Cost | kWh y Flwyddyn a Arbedwyd | Tunelli o Garbon y Flwyddyn a Arbedwyd |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Uwchradd y Coed Duon | Goleuadau LED | £2,000 | 2,377 | 1.08 |
| Ysgol Gynradd Trinant | Goleuadau LED | £14,683 | 14,535 | 6.48 |
| Ysgol Gynradd Twyn | Goleuadau LED | £7,535 | 11,550 | 5.14 |
| Ysgol Gynradd Trinant | Inswleiddio | £1,801 | 12,935 | 7.37 |
| Canolfan Hamdden Heolddu | Llifoleuadau LED | £8,015 | 9,095 | 4.08 |
| Tŷ Tredomen | Goleuadau LED | £750 | 1,225 | 0.55 |
| Swyddfeydd Tŷ Penallta | Goleuadau LED | £17,489 | 18,787 | 7.22 |
| Ysgol Gynradd Bryn | Inswleiddio | £360 | 1245 | 0.23 |
| Prif Weithredwr Tŷ Penallta | Goleuadau LED | £4,840 | 6744 | 2.59 |
| Canolfan Hamdden Sue Noake | Goleuadau LED | £6,390 | 7212 | 3.2 |
| Ysgol Gyfun Sant Cenydd | Goleuadau LED | £48,108 | 59571 | 22.9 |
| Cyfanswm | | £111,971 | 145,276 | 61 |

# Mesurau Perfformiad

| Cyfnod | Teitl | Gwirioneddol | Targed | Ymyriad | Coch Melyn Gwyrdd | Canlyniad 12 mis yn ôl | Sylw |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ch4 17/18 | Nodi a gweithredu prosiectau buddsoddi i arbed o dan gynllun LAEF (Caiff hyn ei fesur fel canran o'r dyraniad cyllidebol) | 187 | 80 | 70 | | Mesur Newydd | Rhagorwyd ar y targed gwariant ar gyfer y cyfnod drwy wario £112k, a hynny ar draws 11 o brosiectau. Gan fod y Cyngor wedi rhagori ar y targed, roedd hyn yn golygu bod Caerffili mewn safle cryf yn y tablau cynghrair cenedlaethol. |
| Ch4 17/18 | Y math o gerbydau a gaffaelwyd ar gyfer eu treialu a'u nifer | 1 | 5 | 3 | | Mesur Newydd | Y targed oedd caffael pum fan fach. Gwnaethom gaffael un fan am gyfnod byr yn 2017. Rydym yn aros am gadarnhad o bris ac argaeledd cerbydau er mwyn dechrau prydlesu cerbydau ar gyfer y cynllun peilot (roedd oedi gyda hyn drwy gydol 2017/18 a byddwn yn cymryd camau dilynol o haf 2018 ymlaen). |
| Ch4 17/18 | Nifer y mannau gwefru trydan a gymeradwywyd a'r gosodiadau a gwblhawyd yn Swyddfeydd y Cyngor | 2 | 2 | 1 | | Mesur Newydd | Chwe man gwefru yn Nhŷ Penallta, pum man gwefru yng Nghanolfan Tir y Berth wedi'u gosod yn barod. Mae rhai ychwanegol wrthi'n cael eu hystyried ar gyfer y dyfodol. |
| 2017/18 | Nifer yr Archwiliadau Ynni adeiladau a gwblhawyd ac a drosglwyddwyd i reolwyr yr adeiladau | 16 | 15 | 10 | | 15 | Cwblhawyd mwy o archwiliadau ynni na'r targed. Mae hyn yn golygu bod gan y staff allweddol yn yr adeiladau a archwiliwyd wybodaeth well am sut i ddefnyddio llai o ynni a ble i fuddsoddi yn yr adeilad. |
| Ch4 17/18 | Nifer ein hysgolion sy'n ennill achrediad Baner Werdd Eco Ysgolion | 78 | 80 | 73 | | 73 | Adnewyddodd 13 o ysgolion eu gwobr Baner Werdd Eco Ysgolion yn 2017/18. Mae 36 o ysgolion wedi ennill eu gwobr Platinwm (Pedwaredd Baner Werdd) hyd yma. Mae wyth ysgol wedi colli eu statws Baner Werdd. |

# Amcan Llesiant 5

## Buddsoddi yng nghartrefi'r Cyngor er mwyn trawsnewid bywydau a chymunedau

**Pam rydym wedi dewis hwn**

Ymhlith rhai o'r prif heriau sy'n wynebu'r fwrdeistref sirol mae fforddiadwyedd hirdymor tai, effeithiau incymau isel, tlodi tanwydd a gwella ansawdd tai yn y sectorau cymdeithasol. Bydd angen buddsoddi dros £200 miliwn yng nghartrefi'r Cyngor ar draws ein bwrdeistref sirol fel rhan o raglen Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) erbyn 2020. Yn 2012, cymerodd tenantiaid y Cyngor ran mewn pleidlais i leisio'u barn ynghylch y ffordd y byddai eu cartrefi yn cael eu rheoli yn y dyfodol, a gwnaethant bleidleisio i gadw'r Cyngor fel eu landlord.

Rydym yn gweithio mewn ffordd weithredol, integredig a chydweithredol drwy gyflawni'r rhaglen wella hon fesul cymuned. Caiff pob un o gartrefi'r Cyngor ei arolygu er mwyn pennu faint o waith mewnol ac allanol sydd ei angen, y math o waith sydd ei angen, y gweithlu a'r cynhyrchion i'w defnyddio a pha mor brydlon y gellir cyflawni'r gwaith. Rydym wedi sefydlu ‘Tasglu Cartrefi Caerffili’, sy'n cynnwys saith Cynghorydd a saith cynrychiolydd tenantiaid, sy'n cyfarfod yn rheolaidd i drafod hynt rhaglen SATC a'r gwelliannau i'r gwasanaeth tai. Caiff gwaith y Tasglu ei lywio gan ‘Grŵp Atgyweiriadau a Gwelliannau Tenantiaid’.

Oherwydd maint y rhaglen hon, bydd yn rhoi hwb sylweddol i'r economi leol. Dylai'r arian a gaiff ei wario ar wella cartrefi fod yn gatalydd ar gyfer gwaith adfywio ehangach sy'n gwella bywydau a chymunedau. Y prif fwriad, ar wahân i wella cartrefi, yw atal y stoc dai rhag dirywio ymhellach, a all gael effaith andwyol ar iechyd ac ansawdd bywyd y tenantiaid.

Ar gyfer y flwyddyn 2017/18, ystyrir bod y Cyngor wedi **llwyddo'n rhannol** i wneud cynnydd tuag at gyflawni'r amcan hwn ar y cyfan.

### *Beth rydym wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf*

Ar 31 Mawrth 2018, cyfanswm stoc dai'r Cyngor oedd 10,785 o gartref. Rydym yn parhau i wneud cynnydd da o ran ein rhaglen fuddsoddi er mwyn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) mewn perthynas â phob un o'n cartrefi erbyn diwedd mis Rhagfyr 2020, ar ôl buddsoddi £152m ers dechrau'r rhaglen.

Mae'r buddsoddiad cyfalaf mewn cartrefi wedi cael ei ddefnyddio i gefnogi busnesau lleol a chreu cyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth yn y fwrdeistref er mwyn helpu pobl i ddychwelyd i fyd gwaith. Am fod y gwaith gwella cartrefi sydd ei angen mor gymhleth, mae'r rhaglen yn cael ei chyflawni mewn 'blociau graddol o waith' (gwaith mewnol ac allanol yn cael ei wneud ar wahân) nad ydynt yn targedu 'unedau cartref cyfan' ar un tro. Felly, ni sicrhawyd 'cydymffurfiaeth gartref gyfan' yn ystod blynyddoedd cynnar y rhaglen. Wrth i'r dull hwn o weithio fynd rhagddo a gorgyffwrdd (fesul ardal), gwelir cynnydd graddol (amlwg) mewn 'cydymffurfiaeth uned cartref cyfan' wrth i ni symud tuag at flynyddoedd olaf y rhaglen.

Mae elfen gwaith mewnol rhaglen SATC wedi mynd rhagddi'n dda, er ein bod wedi colli un o'n prif gontractwyr, ac mae ar y trywydd cywir i gael ei chwblhau erbyn y terfyn amser yn 2020. Mae'r gwaith allanol wedi llithro dros y tair blynedd flaenorol oherwydd nifer o heriau; fodd bynnag, mae gwelliannau sylweddol wedi cael eu gwneud yn ystod 2017/18 gan gynnwys cyflwyno System Prynu Ddynamig (DPS). Ar sail y perfformiad presennol, mae'r elfen hon hefyd ar y trywydd cywir i gael ei chwblhau erbyn y terfyn amser yn 2020.

Gwnaed penderfyniad bwriadol i sicrhau y byddai'r arian a fuddsoddir i sicrhau bod cartref pob tenant yn cyrraedd SATC yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r gwaith o ddatblygu busnesau bach a chanolig a chreu cyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth er mwyn helpu pobl i ddychwelyd i fyd gwaith. Ers dechrau rhaglen SATC, mae'r Cyngor wedi buddsoddi dros £150m a rhagamcenir y bydd yn buddsoddi dros £220m erbyn diwedd y rhaglen. Mae'r buddsoddiad hwn wedi arwain at greu 43 o swyddi parhaol, 58 o brentisiaid a 44 o leoliadau gwaith, yn ogystal â rhoi cymorth i fusnesau lleol a chyfleoedd iddynt ehangu.

Gwnaethom ddechrau rhaglen amgylcheddol SATC yn 2016 ac rydym yn bwriadu buddsoddi tua £10.6m er mwyn sicrhau bod ei chartrefi'n cael eu lleoli mewn amgylcheddau deniadol a diogel. Mae Cam 1, a oedd yn cynnwys nodi mân waith atgyweirio a gwella ledled y fwrdeistref, wedi cael ei gwblhau. Ar hyn o bryd, mae rhaglen helaeth i ymgysylltu â'r gymuned yn mynd rhagddi er mwyn nodi gwelliannau a gaiff eu gwneud fel rhan o Gam 2, ac mae llawer o brosiectau wedi'u cymeradwyo ac wrthi'n mynd rhagddynt.

Mae SATC yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor sicrhau, hyd y gellir, bod gwelliannau'n cael eu gwneud sy'n addas i ofynion penodol y cartref. Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth a gwireddu'r dyhead i drawsnewid bywydau a chymunedau, mae'r Cyngor wedi cwblhau portffolio o addasiadau fel rhan o'i waith gwella a, thrwy hynny, sicrhau bod pobl yn gallu parhau i fod yn annibynnol yn eu cartrefi am fwy o amser. Mewn rhai achosion, y cyfan y mae hyn wedi'i olygu yw gosod canllawiau ac, mewn achosion eraill, mae wedi golygu gosod rampiau, ceginau i bobl anabl, cawodydd y gellir cerdded i mewn iddynt a darpariaethau RNIB er mwyn helpu pobl â nam ar y golwg. Rydym hefyd wedi gosod 25 o ddrysau awtomatig yn ein cynlluniau tai gwarchod.

Rydym yn monitro lefelau boddhad tenantiaid ac mae ein data yn dangos bod tenantiaid yn fodlon ar eu gwaith mewnol ar y cyfan (86%). Fodd bynnag, mae'r lefelau boddhad ar gyfer y gwaith allanol wedi bod yn is na'r disgwyl (70%), er mai sampl fach a ymatebodd mewn perthynas â hynny.

Mae'r rhaglen yn parhau i fod yn ariannol hyfyw, ac mae'n debygol y bydd angen benthyca rhywfaint o arian tua diwedd y rhaglen.

Yn 2017, cwblhaodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad o'r rhaglen a chyflwynodd gyfres o argymhellion i'r Cyngor. Mae'r Cyngor wedi mynd i'r afael â'r argymhellion hynny er mwyn gwella'r ffordd y caiff y rhaglen ei chyflawni.

Mae'r rhaglen yn heriol o hyd, ond mae'r cynnydd gwell drwy gydol 2017/18 (gyda rhai trefniadau newydd a gyflwynwyd i sicrhau momentwm) wedi rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa dda i gyflawni rhaglen SATC yn llawn erbyn 2020.

Mae rhaglen fuddsoddi SATC wedi gwella amodau byw yn y ffyrdd canlynol: eu gwneud yn ddiddos, gwella systemau gwresogi, gwella diogelwch yn y cartref drwy newid y cynllun, ailweirio trydanol, gwell hygyrchedd, effeithlonrwydd ynni drwy osod mesurau inswleiddio ychwanegol a gwelliannau allanol, sydd i gyd yn cyfrannu at well cyfleoedd o ran iechyd a llesiant.

## Camau Gweithredu

| Teitl | Sylw | Coch Melyn Gwyrdd | Statws Cyffredinol | % Wedi'i Gwblhau |
|---|---|---|---|---|
| 1. Cyflawni rhaglen buddsoddi cyfalaf 2017/18 mewn perthynas ag atgyweiriadau a gwelliannau mewnol ac allanol | Gwnaed ymrwymiadau i sicrhau bod 75% o eiddo mewnol a 40% o eiddo allanol yn cydymffurfio â SATC. Er mai'r hyn a benderfynwyd yn wreiddiol oedd ein bod wedi rhagori ar yr ymrwymiadau hyn erbyn 31/03/18, mae proses ddilysu newydd wedi penderfynu ers hynny ein bod wedi methu â chyrraedd y targed mewnol o ychydig, gan mai dim ond 73% o'r eiddo oedd yn cydymffurfio â SATC, ond ein bod wedi rhagori ar y targed allanol gan fod 46% o'r eiddo yn cydymffurfio. Ar y cyfan, lefel y gydymffurfiaeth â SATC oedd 35%. Nid oedd angen benthyg unrhyw arian eleni, gan mai £42m oedd y gwariant, sy'n is na'r gyllideb, ond mae'r gwariant hwn yn fwy na phob gwariant blynyddol blaenorol, sy'n dangos y cynnydd o ran momentwm yn ystod 2017/18. Felly, mae'r cynllun busnes yn ariannol hyfyw o hyd ac mae'r targed ar gyfer cwblhau rhaglen SATC yn llawn erbyn 2020 yn gyraeddadwy o hyd. | | Wedi'i Gyflawni'n Llawn | 100 |
| 2. Gorfodi'r safonau a nodir yn y Siarter Ymddiriedaeth mewn perthynas â'r gweithlu mewnol a chontractwyr | Caiff y rhaglen hon ei hysgogi a'i chyflawni mewn cyd-destun â/gan:<br><br>• Meini Prawf Rhaglen SATC<br>• Polisi Cydymffurfio â SATC<br>• Strategaeth/Cynllun Gweithredu SATC<br>• Strategaeth Cyfathrebu â Tenantiaid<br>• Siarter Ffocws ar Gyflawni<br>• Safonau'r Siarter Ymddiriedaeth<br>• Telerau ac Amodau Contractau<br><br>Cynnwys y rhain sy'n pennu'r 'amodau ar gyfer dyheadau' a 'safonau' gwaith a gwblheir yn y pen draw.<br><br>Rhoddir gwybod yn rheolaidd i gontractwyr a'r gweithlu am y gofynion a chaiff y canlyniadau eu monitro drwy arolygon, cymeradwyo gwaith wedi'i gwblhau a boddhad tenantiaid.<br><br>Mae'r Siarter yn sicrhau y bydd gwaith a gwblheir ar gartrefi tenantiaid yn cael ei wneud â pharch ac yn ennyn hyder. Cafwyd rhai problemau gyda chontractwyr allanol a'u hisgontractwyr yn benodol, gan ei bod yn ymddangos bod y Siarter Ymddiriedaeth yn cael ei chyfleu'n anghyson drwy'r gadwyn gyflenwi gyfan. Fodd bynnag, mae problemau wedi cael eu datrys pryd bynnag y maent wedi cael eu nodi ac mae'r materion dan sylw wedi cael eu pwysleisio ym mhob cyfarfod cyn contract. | | Yn Mynd Rhagddo | 85 |
| 3. Cyflawni rhaglen sy'n canolbwyntio ar y cwsmer gyda lefelau uchel o foddhad | Caiff yr holl waith ei gyflawni ar ôl cynnal arolwg a hysbysu'r tenantiaid. Ar gyfer elfennau mewnol, caiff gwaith/apwyntiadau y cytunwyd arnynt eu trafod wedyn â'r tenant a'u trefnu'n unol â hynny. Cynigir rhywfaint o ddewis i denantiaid o ran cynhyrchion amrywiol a chaiff llythyrau'n cadarnhau cwmpas y gwaith a'u dewisiadau hefyd eu hanfon at denantiaid, sydd hefyd yn cael cyfnod o amser i ailystyried. Mae'r llythyrau hysbysu a anfonir at denantiaid cyn i waith allanol gael ei wneud yn rhoi trosolwg byr o gwmpas tebygol y gwaith. Yn dilyn adborth gan denantiaid, mae'r llythyrau hyn yn y broses o gael eu hadolygu.<br><br>Mae'r Cyngor yn monitro canmoliaeth a chwynion yn rheolaidd, yn gweithredu yn eu cylch ac yn eu cofnodi'n briodol.<br><br>Mae holiadur arolwg gwaith allanol wedi cael ei roi ar waith yn llawn mewn ffordd debyg i'r arolwg mewnol sydd eisoes yn bodoli. | | Yn Mynd Rhagddo | 78 |

## Camau Gweithredu

| Teitl | Sylw | C/M/G | Statws Cyffredinol | % Wedi'i Gwblhau |
|---|---|---|---|---|
| Bodloni gofynion Rhan 7 o SATC drwy wneud addasiadau lle y cânt eu nodi | Cyn argymell gwaith gwella addasiadau, cynhelir asesiad unigol gan therapydd galwedigaethol er mwyn nodi anghenion penodol y cartref. Mae hyn yn berthnasol i'r rhaglen gwaith mewnol ac allanol.<br>Lle y bo'n ddichonadwy, caiff unrhyw addasiadau a gymeradwywyd eu hymgorffori yn rhaglen SATC. Hefyd, gwneir addasiadau pellach drwy ein tîm tai preifat yn dilyn atgyfeiriadau gan y Gwasanaethau Cymdeithasol neu o ganlyniad i atgyfeiriadau uniongyrchol drwy'r therapydd galwedigaethol at Wasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.<br><br>Mae 1,713 o addasiadau wedi'u cwblhau hyd yma (o fewn cyfnod y rhaglen). | | Wedi'i Gyflawni'n Llawn | 100 |
| Gwneud y gwelliannau amgylcheddol er mwyn bodloni Rhan 6 o'r safon cymunedau deniadol a diogel | Cyhoeddiad yr Ymgyrch Awst/Medi 2017:<br><br>Gofynnir i gymunedau ledled y fwrdeistref gynnig syniadau ar gyfer gwella eu hardal leol drwy gyfres o ddigwyddiadau ymgynghori 'Lluniwch eich Lle'.<br><br>Cefnogir Rhaglen Amgylcheddol SATC gan gyllideb o £10.6m ar gyfer ystadau'r cyngor ledled y fwrdeistref. Ar hyn o bryd, mae swyddogion amgylcheddol, ein partneriaid, contractwyr a dinasyddion yn ymgysylltu er mwyn ystyried cyfleoedd i wella ac mae cyfres o ddigwyddiadau ac arolygon ar-lein yn cael eu creu er mwyn ceisio barn pobl ar welliannau amgylcheddol.<br><br>Mae cyfres o sesiynau casglu sbwriel, arwyddion newydd, gwell amwynderau, cyfleusterau storio biniau cymunol a lleoedd parcio ychwanegol eisoes wedi cael ei chwblhau mewn rhai cymunedau.<br><br>Mae Bwrdd Prosiect SATC wedi cymeradwyo nifer o gynlluniau mawr a fydd yn cael eu hintegreiddio mewn rhaglenni gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddynt yn ystod 2018/19. Cynhelir digwyddiadau ymgysylltu ar hyn o bryd er mwyn nodi prosiectau ledled y fwrdeistref sirol a fydd yn cael eu rhoi ar waith rhwng nawr a 2020. Mae cynlluniau mawr wedi cael eu cymeradwyo yn Nelson, Treffilip, Penyrheol a Thŷ Sign. | | Wedi'i Gyflawni'n Rhannol | 40 |
| Nodi a mynd ar drywydd cyfleoedd ariannu allanol er mwyn cefnogi mesurau effeithlonrwydd ynni | Sicrhawyd cyllid ychwanegol o dan raglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi preifat ym Mharc Lansbury, gan olygu bod cyfanswm o £680,000 wedi cael ei fuddsoddi o dan y rhaglen honno erbyn mis Mawrth 2018.<br>Hefyd, mae £1.4m wedi cael ei ymrwymo drwy raglen ARBED i gyflawni gwaith effeithlonrwydd ynni.<br><br>Mae gwaith sy'n gysylltiedig ag ARBED ym Mharc Lansbury yn cael ei gyflawni gan gontractwyr – E.On a SERS. | | Wedi'i Gyflawni'n Llawn | 10 |

## Faint rydym wedi'i wneud?

| Cyfnod | Teitl | Gwirioneddol | Targed | Ymyriad | Coch Melyn Gwyrdd | Canlyniad 12 mis yn ôl | Sylw |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2017/18 | Nifer y cartrefi a gyrhaeddodd SATC fel y cofnodwyd ar y ffurflen flynyddol i Lywodraeth Cymru (Nifer y tai sydd wedi cyrraedd safon SATC - gwelliannau/gwaith a gwblhawyd hyd yma) | 3501 | 1263 | 909 | | 252 | Targedau Mewnol ac Allanol wedi'u hailbroffilio (Adroddiad y Cabinet 28/02/18). Targed yn seiliedig ar gydymffurfiaeth gyfartalog (gwaith gwella arfaethedig a gwblhawyd). Mae gwaith Mewnol ac Allanol yn cael ei gwblhau mewn blociau graddol o waith fesul cymuned (nid tŷ cyfan). Felly, bydd cyfanswm y gydymffurfiaeth yn cynyddu'n gyflymach tuag at 2020. |
| 2017/18 | Nifer y cartrefi sy'n cydymffurfio â SATC mewn perthynas â'u helfennau ALLANOL (gwelliannau/gwaith a gwblhawyd hyd yma) | 4969 | 4320 | 2500 | | 1320 | Targedau wedi'u hailbroffilio (Adroddiad y Cabinet 28/02/18). O ganlyniad i lithro yn ystod y flwyddyn flaenorol a chymhlethdodau gyda chontractau. |
| 2017/18 | Nifer y cartrefi sy'n cydymffurfio â SATC mewn perthynas â'u helfennau MEWNOL (gwelliannau/gwaith a gwblhawyd hyd yma) | 7806 | 8398 | 7300 | | 6057 | Targedau wedi'u hailbroffilio (Adroddiad y Cabinet 28/02/18). O ganlyniad i ailflaenoriaethu gwaith yn ystod y flwyddyn flaenorol. |

## Pa mor dda y gwnaethom ni?

| Cyfnod | Teitl | Gwirioneddol | Targed | Ymyriad | Coch Melyn Gwyrdd | Canlyniad 12 mis yn ôl | Sylw |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2017/18 | Arolwg Boddhad Gwaith Mewnol SATC Canlyniad – Bodlon ar y Cyfan | 86 | 80 | 50 | | Dd/G | Allan o oddeutu 4000 a anfonwydd yno bu oddeutu 1800 dchweliadau syfrdanol |
| 2017/18 | Arolwg Boddhad Gwaith Allanol SATC Canlyniad – Bodlon ar y Cyfan | 70 | 80 | 50 | | Dd | Boddhad â gwaith allanol (yn seiliedig ar ymatebion rhwng Medi-Rhag 17) |